# Gwella'r Nifer sy'n Derbyn Brechlyn COVID-19 a Thegwch Brechlyn COVID-19 a yng Nghymru

## Crynodeb Lleyg

Rhif yr Adroddiad: PR003 (Medi 2023)

**Tîm ymchwil:**
Malorie Perry[1], Simon Cottrell[1], Chris Johnson[1], Tania Nicholson[2], Gill Richardson[3], Ronan Lyons[4], Jasmin Chowdhury[1], Mai Barry[1], Caroline Harris[1], Alex Lench[1], Philippa Harris[1], Harriet Hallum[1], Charlotte McDermott[1], Rowena Bailey[5], Brendan Collins[6], Cathy Qi[5]
1. Uned Brechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru
2. Swyddfa Polisi Brechlynnau Llywodraeth Cymru
3. Uwch Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
4. SAIL, Prifysgol Abertawe
5. Uned Ymchwil Iechyd a Data, Prifysgol Abertawe
6. Is-adran Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Chyngor, Llywodraeth Cymru

**Tîm y Ganolfan Dystiolaeth, Prifysgol Caerdydd:**
Adrian Edwards, Alison Cooper, Elizabeth Doe

**Cyhoeddi'r adroddiad:** Hydref 2023

**Dylid dyfynnu'r crynodeb fel:** Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Tegwch Brechlyn_Crynodeb Lleyg Astudiaeth _Hydref 2023

**Datganiad ariannu:** Ariannwyd y gwaith hwn gan Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, wedi ei ariannu ei hun gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

**Ymwadiad:** Safbwyntiau'r awduron sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, nid Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau.

Swansea University Prifysgol Abertawe

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government

SAIL DATABANK

# Crynodeb Lleyg

**Cefndir**
Mae tystiolaeth o'r rhaglenni brechu presennol yng Nghymru yn amlygu bod y **boblogaeth nad ydynt wedi'u brechu'n ddigonol yn debygol o gynnwys grwpiau bregus neu grwpiau nad ydynt yn cael eu cyrraedd a'r rhai sy'n wynebu heriau ychwanegol wrth gyrchu gofal iechyd**.
Efallai y bydd y rhai â nam corfforol, unigolion â chyflyrau iechyd meddwl a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn cael gwasanaethu'n dda, yn wynebu mwy o anawsterau wrth gyrchu a derbyn brechlynnau; yn yr un modd â phobl sy'n rhyngweithio â gofal iechyd yn llai aml; gan gynnwys y rhai sydd â sefyllfaoedd tai ansefydlog neu heriau camddefnyddio sylweddau, a cheiswyr lloches a ffoaduriaid.
Mae Cymru mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu dulliau a all amcangyfrif tegwch sylw brechu ar draws nifer o nodweddion allweddol, o ystyried maint y boblogaeth, ehangder cronfeydd data cenedlaethol ar lefel cleifion ac offer casglu data sy'n bodoli.

**Nod**
Nod yr astudiaeth hon yw edrych ar **ragfynegwyr derbyn brechlynnau mewn grwpiau sy'n agored i niwed a rhai anodd eu cyrraedd.** Bydd hyn yn helpu i ddeall yn well anghydraddoldeb sy'n ymwneud â derbyn y brechlyn COVID-19, a meysydd posibl ymyrraeth, buddsoddi ac ymchwil pellach.

**Dull**
Mae banc data SAIL yn cynnig y gallu i gysylltu setiau data a allai fod y tu allan i amgylchedd y GIG.
Oherwydd partneriaethau gweithio agos rhanddeiliaid allweddol yn Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd a gwasanaethau Cyflenwi'r GIG, a'r Byd Academaidd, mae cyfle gwerthfawr hefyd i arwain gwelliannau gwasanaeth y GIG a darpar ddatblygiad polisi yn uniongyrchol drwy wyliadwriaeth gadarn ac arloesol a chasglu tystiolaeth.

Mae'r cwestiynau mae'r astudiaeth hon yn ceisio eu hateb yn cynnwys: **'Beth yw rhagfynegwyr derbyn brechlyn (dos cyntaf a'r ail ddos)? '** a **'Beth yw nodweddion clinigol, canlyniadau a phatrymau defnyddio gofal iechyd cleifion sydd wedi'u brechu a heb eu brechu sy'n cael eu derbyn i ofal critigol?**'.

Bydd y cwestiynau uchod yn cael eu cymhwyso i'r 11 maes allweddol o ddiddordeb canlynol:
1. Cyflyrau risg cronig
2. Mewn perygl o ddigartrefedd

3. Natur wledig
4. Anabledd corfforol
5. Cyflyrau iechyd meddwl difrifol
6. Safle ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
7. Hanes hysbys o gamddefnyddio sylweddau
8. Poblogaethau ceiswyr lloches a ffoaduriaid
9. Maint a chyfansoddiad yr aelwyd
10. Ward wleidyddol
11. Pellter o'r ganolfan frechu

Dilynir hyn gan ddadansoddiad aml-newidiol, sy'n cyfuno canfyddiadau o'r ymchwil a gyflwynwyd ar bob un o'r 11 maes allweddol o ddiddordeb.

Am ragor o wybodaeth am bob un o'r meysydd allweddol, gweler y ffeithlun.

Gallwch hefyd gysylltu â thîm y Ganolfan Dystiolaeth: healthandcareresearch@wales.nhs.uk

## Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Gweithiodd ein timau ymroddedig ynghyd â Llywodraeth Cymru, y GIG, gofal cymdeithasol, sefydliadau ymchwil a'r cyhoedd i gyflwyno ymchwil hanfodol i fynd i'r afael â heriau iechyd a gofal cymdeithasol oedd yn wynebu Cymru yn ystod pandemig Covid-19.

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru (**Ebrill 2021 - Mawrth 2023**), drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, atebodd y Ganolfan Dystiolaeth gwestiynau allweddol sy'n gysylltiedig â COVID-19 er mwyn gwella polisi a darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru a thu hwnt.

Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

## Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Mae **Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** wedi cael ei hariannu **rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2028**. Ynghyd â'n partneriaid cydweithredol, rydym ni'n cynnal adolygiadau o dystiolaeth bresennol ac ymchwil newydd, i lywio anghenion polisi ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol, gyda ffocws ar sicrhau budd y byd go iawn a'r cyhoedd sy'n cyrraedd pawb.

**www.researchwalesevidencecentre.co.uk**

**E-bost: healthandcareresearch@wales.nhs.uk**

**Cyfarwyddwr:** Yr Athro Adrian Edwards